

Transcript Podlediad

Rhifyn 29 - System gaeafu ar laswellt yn unig ac adeiladu gwytnwch busnes trwy reoli pori

Aled Rhys Jones –

Helo a chroeso i bodlediad Clust i'r Ddaear gyda fi Aled Jones. Wel mae'r bennod hon yn dod o Fferm Blaenglowon Fawr, ger Talgarreg yng Ngheredigion. Cartref Bleddyn Davies a'i deulu sy'n rhedeg fferm gymysg biff a defaid. Mae Bleddyn hefyd yn aelod o grŵp Rhagori ar Bori, a ni yma heddiw i ddysgu mwy am sut mae ei fusnes wedi elwa o'r rhaglen a sut mae wedi newid ei system o bori er mwyn sicrhau dyfodol y busnes - yn enwedig o ystyried yr heriau posib sy'n wynebu'r diwydiant defaid yma yng Nghymru. Hefyd gyda llaw, i unrhyw un sydd gyda diddordeb, mae'r ffenestr ymgeisio newydd ar gyfer rhaglen Rhagori ar Bori yn rhedeg rhwng chweched ar hugain o Hydref a'r chweched ar hugain o Dachwedd, ac mae 'na fwy o fanylion ar wefan Cyswllt Ffermio.

Wel Bleddyn, diolch yn fawr iawn i ti am y croeso 'ma, ni'n cysgodi yn un o'r siediau defaid ar glôs y fferm ar hyn o bryd, ond mae'r tywydd yn braf felly ni yn gobeithio mynd allan am dro yn fuan, ond cyn i ni wneud hynny, rho ryw gyflwyniad i ni o dy hunan a'r fferm yma yn Blaenglowon.

Bleddyn Davies -

Bleddyn Davies ydw i, fi'n ffermio fan hyn ym Mlaenglowon Fawr mewn partneriaeth gyda mam a'n nhad. Mae'n fferm o tua thri chant o erwau, fferm deuluol biff a defaid a'r defaid ar hyn o bryd rownd saith cant a hanner o ddefaid, wedi seilio ar ddafad Cymraeg Tregaron, a'r ddafad Gymraeg wedi croesi gyda Aberfield, ac wedyn mae'r ddafad Gymraeg yn mynd yn ôl i hwrdd Cymraeg ac i hwrdd Aberfield, tra bod y defaid Cymraeg croes Aberfield yn mynd nôl i hwrdd Primera gyda'r targed o werthu ŵyn tew i'r archfarchnad. Wedyn, ni'n rhedeg dau ddeg pump o dda sugno, Limousin Croes, a Belgian Blue wedi croesi, ac mae rheiny i gyd yn mynd yn ôl at darw Limousin ac yn lloia o ddiwedd Mawrth i ddiwedd Mai. Ni hefyd yn pori tua phedwar deg o loi mas o'r fuches odro bob blwyddyn. Ni'n prynu'r rheina mewn, magu nhw o'r bwced a'u pori nhw, gyda'r opsiwn o'u gorffen neu eu gwerthu nhw fel stôr.

Aled Rhys Jones –

A ydy'r system ffermio yn weddol debyg i'r hyn oedd dy rieni yn ei wneud blynyddoedd nôl, neu wyt ti wedi cyflwyno mwy o newid i'r system?

Bleddyn Davies –

Fi wedi cyflwyno un neu ddau newid bach, ond ni wedi bod yn fferm sy'n trial datblygu a trial gwella ar beth sydd gyda ni yma a gwneud y mwyaf o beth sydd gyda ni yma trwy'r blynyddoedd. Buon ni'n Fferm Arddangos gyda Chyswllt Ffermio rhai blynyddoedd yn ôl.

Aled Rhys Jones –

Fi'n gweld. Ie wrth gwrs. Ac fel rhywun ifanc yn y diwydiant a'r dyfodol o dy flaen di, le wyt ti'n gweld y dyfodol i'r diwydiant ar hyn o bryd? Achos mae lot o newid wrth gwrs ar y gorwel, lot o ansicrwydd yn bodoli ar hyn o bryd, ond ti'n amlwg yn hyderus ac yn edrych ymlaen i'r dyfodol yn y diwydiant.

Bleddyn Davies –

Wel mae rhaid dweud, mae hi yn mynd i fod yn ddyfodol eithaf '*tricky*' mewn ffordd, does neb yn siŵr beth sy'n mynd i ddigwydd a ble ni'n mynd i fod ar ôl mis Ionawr i ddechrau bant gyda, felly fi'n credu bod y pump i ddeg mlynedd nesaf yn mynd i fod yn sialens a hanner i bawb o fewn y diwydiant. Ac mae'n bwysig, yn fy marn i, i edrych ar beth yr ydych chi'n dda ynddo, beth mae'r fferm yn dda ynddo a gwneud y mwyaf ohono, a trial bod mewn rheolaeth o bopeth i chi'n gallu ar y fferm.

Aled Rhys Jones –

Ie, chi'n clywed hyn yn aml. Y ffocysu ar yr elfennau hynny sydd o fewn eich rheolaeth, a pheidio poeni o lawer am y pethau sydd tu hwnt i'ch rheolaeth tu allan i'r fferm wrth gwrs. Ond fel nes 'di son, ti wedi cyflwyno ambell newid bach i'r busnes, ond weden i eu bod yn newidiadau allweddol i ddyfodol y busnes hefyd o ran dewis y brîd o ddefaid, a hefyd y system o bori. Esbonia mwy i ni am rhein.

Bleddyn Davies –

Mae mwyafrif o'r defaid nawr yn Gymraeg a Chymraeg croes ag Aberfield, lle oedd na ambell 'Suffolk cross Beulah', a 'Beulah' i gael yma i gynhyrchu'r 'mules'. Ond, ni 'di symud e wrth'o na, am fod y ddafad Gymraeg a'r groes o'r ddafad Gymraeg yn para gymaint hirach ar y ffarm. Mae hynny'n chwarae rhan mewn faint o ddefaid sydd eisiau i ni gadw a phrynu mewn bob blwyddyn, a hefyd ni'n ffocysu ar werthu ŵyn tew mae'r archfarchnad yn galw amdano o'r borfa ni'n ei wneud.

Aled Rhys Jones –

Ac wedyn ti wedi manteisio ar lot o gyrsiau dros y blynyddoedd. Nes di son am y grŵp Rhagori ar Bori, faint o ddylanwad mae rheini wedi cael arnat ti?

Bleddyn Davies –

Mae'r rheiny 'di bod yn ddylanwad mawr, ond ers fi di bod yn coleg mae'r topig o borfa, fel mae tyfu glaswellt a phopeth i gyd wedi bod o ddiddordeb mawr i mi, a trwy'r Rhagori ar Bori a'r Meistr Porfa, wel, mae'r diddordeb wedi bod yn tyfu a thyfu ac mae'r wybodaeth wedi bod yn tyfu. A hefyd,

diwrnodau agored Cyswllt Ffermio, mae'r rheiny'n ddefnyddiol iawn o ran rhai o'r ffermydd sy'n ffocysu ar bethau dw i moen ffocysu arno ar y fferm 'ma. Felly mae rheina i gyd wedi datblygu a dod gyda'i gilydd nawr i'r pwynt lle i ni nawr ar y ffarm, ble ni'n rhoi lot mwy o bwyslais ar dyfu porfa a neud siŵr bo' ni'n cynhyrchu porfa o'r safon orau.

Aled Rhys Jones –

Wrth gwrs. Ac mae'r system pori cylchdro yma yn rhywbeth sy'n boblogaidd iawn ar hyn o bryd. Le wyt ti'n dechrau pan ti'n moen cyflwyno system felna, mae'n dipyn o newid i lot o ffermwyr. Beth yw'r camau cyntaf?

Bleddyn Davies –

Mae e yn gam mawr achos bod lot o bethau'n pwyso arno fe. Os ydych chi'n cael e'n anghywir, fe all gael lot o effaith nid yn unig ar y stoc, ond ar ansawdd y glaswellt hefyd. Dechreuon ni ar y system gylchdro ryw dwy flynedd yn ôl ar yr ŵyn tew, dim ond yr ŵyn tew. Cadw tri chant ohonyn nhw ar jyst dan 8 erw, 8 hectar de. Ac o fynna, mae'r gwersi wedi dod. Fe weithiodd e'r flwyddyn yna, gweld safon y borfa yn gwella, a gweld bod digon o borfa ffres o flaen yr ŵyn trwy'r amser. Felly fe wnaethon ni wedyn ymestyn y pori cylchdro ar gyfer y defaid ac ŵyn, a'u troi nhw allan tua mis oed. Fe wnaeth hwnna gweithio eto, ac mae e wedi mynd cam bach bob hyn a hyn i'r pwynt ble ni nawr mae popeth bron a bod trwy'r flwyddyn ar system pori cylchdro.

06:28 **Aled Rhys Jones –**

A beth oedd dy rieni yn meddwl o'r system pan nes di gyflwyno fe? Ac wrth gwrs ti wedi dangos ei fod yn llwyddiannus, ond ar y dechrau a oedden nhw braidd yn nerfus falle?

Bleddyn Davies –

Eithaf amheus a chwestiynu'r system ar y dechrau ond unwaith o nhw'n gweld y buddion i'r stoc a faint o stoc ni'n gallu cario a faint o borfa o ni'n gallu tyfu, dydyn nhw heb stopio fi i ehangu'r system ar y funud.

Aled Rhys Jones –

Maen nhw'n gefnogol iawn heb os nac oni bai. Ond pa wahaniaeth welais di ym mherfformiad yr ŵyn ar y system yma? Ti'n gweld nhw'n perfformio'n well?

Bleddyn Davies –

Yr ŵyn eu hunain yn y flwyddyn gyntaf, sai'n gweld oedden nhw'n perfformio'n well eu hunain, ond gweld safon y borfa yn well. O'n i'n gallu cario fwy o ŵyn ar yr un – neu ar lai o ddaear, a gan bo' ni'n defnyddio meillion coch, oedd safon y meillion coch yn cario drosto o'r flwyddyn i flwyddyn yn well. O'n i ddim yn dinistrio gormod o 'crown' y meillion coch fel bo' nhw ddim yn dod yn ôl y flwyddyn ar

ôl ni. Ond ar ôl ymestyn y pori cylchdro, a gweld bod safon y borfa yn y caeau i gyd yn gwella. Rhai caeau sydd heb gael eu haredig a'u trin mewn tua chwe deg o flynyddoedd achos bod y caeau mor lletchwith a serth, ond gweld y borfa fynna llawn cystal â'r caeau eraill ar y funud.

Aled Rhys Jones –

Ie ie, felly oedd y borfa wedyn yn gwella'r leys mewn ffordd.

Bleddyn Davies –

Odi, dros y gaeaf wedyn mae'n targedu pori eithaf caled, fel taset yn gwasgu'r 'reset button' mewn ffordd. Pori'r chwyn a phopeth i ffwrdd, achos fi di bod yn synnu mae'r defaid hyd yn oed yn pori ar y dynad a'r ysgall ac yn gweld lot llai o'r ysgall yn dod nôl ar ôl trial y pori cylchdro trwy'r gaeaf llynedd.

8:12: Aled Rhys Jones –

Felly mae'n glanhau'r tir hefyd mewn ffordd?

Bleddyn Davies –

Wel, fi'n rhoi e lawr i hwnna, efallai mai lwc yw e, ond fi yn rhoi e lawr ar y funud i'r pori cylchdro yma a phori digon trwm, a bod y porfeydd orau a mwyaf cynhyrchiol yn dod nôl yn gynt ac yn gallu ffeito ei ffordd drwy'r chwyn i gyd.

Aled Rhys Jones –

A hefyd o ran yr ŵyn wedyn, a wnes di lwyddo i orffen popeth bant o'r borfa ac wedyn wyt ti wedi lleihau dy ddefnydd o ddwys fwyd, neu efallai dy fod yn defnyddio dim o gwbl o ddwys fwyd?

Bleddyn Davies –

O ran ddwys fwyd, ni heb brynu dwys fwyd ar gyfer yr ŵyn, ar gyfer pesgi ŵyn, ers tua dwy flynedd yma ar y fferm, ac wedi gorffen yr ŵyn i gyd bant o'r borfa. Ni'n targedu gorffen popeth cyn troad y flwyddyn, gyda chanlyniadau eleni ar y funud ni tua dau gant o ŵyn ymlaen na beth oeddem ni llynedd. Mae hynny'n ysgafnhau'r baich a'r gofyn sydd ar y ddaear ac yn gallu rhyddhau mwy o borfa ar gyfer, wrth gwrs, cael y defaid yn ôl yn y cyflwr iawn ar gyfer hyrddda eleni.

Aled Rhys Jones –

Wrth gwrs. Siarada ni drwyddo nawr y ffordd ti'n rheoli'r pori trwy gydol y tymor, gwed nawr o ddechrau'r wyna i pan mae'r oen olaf yn mynd i'w lladd. Beth yw'r broses?

Bleddyn Davies –

Wel ni'n wyna yma am chwe wythnos o ganol mis Mawrth. Mae popeth ar ôl wyna yn cael diwrnod neu ddau yn y sied ac yna yn mynd allan i'r caeau o amgylch y clôs. Unwaith mae'r ŵyn tua thair wythnos i bedair wythnos oed maen nhw'n mynd arno i'r system gylchdro ble maen nhw'n fobiau o tua dau gant ag ugain o ddefaid/dau gant a thri deg. Byddan nhw ar hwnnw nes byddan nhw'n cael eu tynnu. Bydd y tri chant o ŵyn trymaf a mwyaf parod i fynd yn mynd arno i system gylchdro ar y meillion coch. Bydd y defaid yn mynd ar system gylchdro eu hunain ble maen nhw'n glanhau ac ail gychwyn lot o'r borfa efallai sydd wedi mynd 'off' wrthym ni am bach, a neud siŵr bod popeth yn dod nôl i gael porfa ifanc, llawn maeth ar gyfer yr ŵyn. Wedyn bydd yr ŵyn eraill yn pori cylchdro gyda'i gilydd a bob tro bydd rhai yn mynd allan ar y meillion coch, bydd rhai arall yn dod mewn a chymryd eu lle nhw a gobeithio eu pesgi ar feillion coch wedyn.

Aled Rhys Jones –

Dw i'n gweld. Ac wrth gwrs, ni yma nawr yn mynd mewn i dymor yr Hydref, sut mae'r system yn gweithio o nawr tan wyna? Beth ti'n neud dros y gaeaf?

Bleddyn Davies –

Ar ôl tynnu'r ŵyn a'u bod yn mobiau eu hunain, mae'r defaid yn dod bant o'r pori cylchdro dros yr Hydref i gael eu hyrdda. Maen nhw'n dod yn ôl i'r caeau ar bwys y fferm i gael eu hyrdda ford hyn, ac wedyn byddan nhw'n mynd yn ôl lan diwedd mis Tachwedd, byddan nhw'n mynd lan nôl ar gant a deg o erwau a bydd hwna'n gobeithio eu cadw tan wythnos cyn i wyna ddechrau.

Aled Rhys Jones –

A siarada ychydig yn fwy am yr 'all grass wintering system' yma. Y gaeafu ar borfa yn unig. A oedd hwn yn dipyn o newid i'r ffordd oeddech chi'n ffermio yng nghynt?

Bleddyn Davies –

Oedd mewn ffordd. O'n ni'n cadw nhw mas, doeddwn ni ddim yn tyfu dim cropiai ar eu cyfer nhw yn y gaeaf, dim fel arfer, ac o nhw allan ar borfa yn unig - extensive version o'r system yma. Ond oedd hwnnw wedyn yn golygu bod eisiau ambell bloc fan hyn a fan draw neu ambell i fêl fan hyn a fan draw i gadw nhw fynd. A buon ni hefyd yn trial bach o fodder beet, ond mae'r system yma nawr trio ni llynedd, dim ond porfa maen nhw wedi bod yn pori o ddiwedd hyrdda tan eu bod yn dod mewn i wyna. Mae'r gost wedi bod o '*electric*' ffensys i setio'r system lan, ond mae hwnna fwy na wedi cael ei gyfiawnhau gyda'r canlyniadau ni wedi cael llynedd.

Aled Rhys Jones –

Sonia mwy am y canlyniadau hynny. Faint o gostau ydych chi wedi arbed?

Bleddyn Davies –

O ran ffigurau, ni wedi arbed ar y bwyd ni'n prynu mewn. Ni wedi arbed dwy bunt tri deg y ddafad o ran costau. Mae hwna'n cyfri'r blocs a'r fodder beet oedden ni'n prynu mewn. Wedyn o ran ddwys fwyd oedd hwna'n punt y pen. Bach dros bunt y pen ni wedi arbed fynna.

Aled Rhys Jones –

Mae hwna'n dipyn o arbediad mewn ffordd, ac mae'r arbediad hynny wedi mynd i helpu gyda'r gost o gyflwyno'r system am y ffensys a phethau?

Bleddyn Davies –

Wel mae'r arbediad y gwnaethom ni gaeaf llynedd o ran prynu bwyd mewn wedi talu am yr '*electric*' ffensys ni di prynu i wneud y system.

Aled Rhys Jones –

Ond oedd e'n dipyn o risg ar y pryd hefyd wrth fynd i'r system gaeafu ar borfa yn unig a ddim yn siŵr sut buasai'r defaid yn eu gwneud ac os byddent yn y cyflwr iawn adeg yr wyna, oedd e'n bach o 'gamble'?

Bleddyn Davies –

Oedd e yn 'gamble'. Oedd e yn 'gamble', a bob dydd o'n i'n mynd mas o'n ni'n gobeithio byddai digon o borfa yn mynd i fod yna, a bod popeth yn dod i ben i gadw mewn cyflwr. Ond unwaith ni'n sganio, ni'n tynnu'r 'triplets' mas a ni'n tynnu'r pethau sydd ddim falle yn y cyflwr gorau. Ni'n tynnu rhai o rheiny mas. Mae popeth arall, llynedd, wedi neud hi'n dda ar y system. Ond oedd hi yn amser nerfus, yn enwedig amser storom Dennis, fe gollais sawl diwrnod o bori pan oedden nhw [y defaid] yn chwilio am gysgod ac yn stampio'r borfa i mewn i'r ddaear. Mae ambell newid wedi cael ei wneud ar gyfer eleni, trial lleihau'r diwrnodau ni 'di colli fynd, ond gawn ni weld eleni.

Aled Rhys Jones –

Mae'r tywydd yn elfen sy'n effeithio ni gyd ond o leiaf mae'r tywydd heddiw yn hyfryd ac mae'n braf iawn felly mae'n gyfle da i ni fynd allan i'r caeau top i weld y system os gallwn ni Bleddyn.

Bleddyn Davies –

Dim problem

Aled Rhys Jones –

Grêt.

Bleddyn Davies –

Ni lan nawr ar rannau uchaf o'r fferm, tua naw cant a hanner o droedfeddi. Ni'n edrych i'r dwyrain, ac ar ddiwrnod clir - dim cweit heddiw - ond mae Llyn y Fan Fawr a Fach i'w gweld o fan hyn. Ni'n edrych wedyn i'r Gorllewin, a ni mond rhyw pum milltir fel mae'r adar yn hedfan o'r môr. Mae gyda ni olygfa wedyn dros Bae Ceredigion ac ar ddiwrnod clir mae Ynys Enlli i'w weld hefyd.

Aled Rhys Jones –

Mae'n ardal hyfryd. A hefyd yn lleol ni'n galw'r ardal yma ym Manc Siôn Cwilt, ond beth yw'r stori tu ôl i Siôn Cwilt?

Bleddyn Davies –

Mae'r ardal Banc Siôn Cwilt wedi cael ei enwi ar ôl smyglwr nôl yn y 1700s o'r enw Siôn Cwilt, ac yr ardal yma oedd yn enwog am le oedd e'n cuddio ei 'gontriband.'

Aled Rhys Jones –

Reit. Wyt ti wedi llwyddo i'w ffeindio fe o gwbl?

Bleddyn Davies –

Dim ar y funud. Dw i'n dal i chwilio. Ond heb gael gafael yn ddim byd ar y funud.

Aled Rhys Jones –

Wel os ffeindiwn ni e heddiw fe wnawn ni rannu fe, be ti'n 'weud?

Bleddyn Davies –

lawn

Aled Rhys Jones –

Ond ni'n edrych nes draw nawr a dw i'n gweld yn y pellter mae mob o ddefaid gyda ti fynd yn un o'r 'paddocks', faint o ddefaid sydd gyda ti fynd?

Bleddyn Davies –

Mae saith cant a hanner. Mae'r defaid i gyd mewn fynd ar y funud. Yn gynharach yn yr haf roedden nhw mewn dau mob, wedi eu rhannu'n hafal, ond y rhai oedd mewn cyflwr da a'r rhai gall neud tro â

mwy o fwyd, o nhw ar system 'leader follower'. Felly oedd y rhai bach dan 'condition' yn cael y borfa gorau, gyda'r lleill yn dod i mewn i lanhau ar y diwedd. Ond erbyn nawr maen nhw gyd wedi codi i ble ni'n moen nhw ar gyfer hyrddda ac maen nhw i gyd yn rhedeg gyda'i gilydd nawr.

Aled Rhys Jones –

Beth yw maint y padog yna wedyn?

Bleddyn Davies –

Mae hwnna ar y funud yn ddau hectar, a dyna'r seis buon ni'n rhedeg y system yma llynedd. Ond erbyn eleni, buon ni'n rhannu e'n hanner eto, felly maen nhw lawr i hectar.

Aled Rhys Jones –

Felly mae saith cant a hanner ar hectar gyda ti wedyn?

Bleddyn Davies –

Byddan nhw ar hectar ar ddau ddiwrnod a hanner, yn dibynnu ar faint o borfa sydd yn y *paddock* a byddan nhw ei bori wedyn o tua 3000 o 'kg o dry matter per hectar' lawr i tua 1300.

Aled Rhys Jones –

Pori e'n galed wedyn cyn symud. A faint o amser mae'r ddaear yn cael i orffwys rhwng '*rotation*'?

Bleddyn Davies –

Y targed ar gyfer gorffwys yw cant ag ugain o ddiwrnodau. Ar gyfartaledd ni siwr a fod yn bwrw cant ag ugain, ond ni'n trial newid pa gyfeiriad mae'r *rotation* yn mynd i bob blwyddyn. Mae rhai caeau yn cael – wel, bod y brêc yna ar gael ar eu cyfer nhw. Dim bob blwyddyn efallai, ond maen nhw yn cael e. I wneud yn siwr bod y pridd yn ei lefel '*optimum*' ar gyfer cynhyrchu gymaint o borfa ni'n gallu.

Aled Rhys Jones –

A mae gofyn bod y ddaear yn go sych i wneud system fel hyn. Ni ar fanc hyfryd fan hyn, mae'n fferm sych. Mae hwna'n help yn dyw e?

Bleddyn Davies –

Ydy mae'r ddaear yn neud ei hunan yn rhwydd i'w drafod ar gyfer system fel hyn. Mae'n eithaf sych yma ac mae'n eithaf serth yma yn rhai mannau. Felly mae'n sychu'n eithaf cyflym. A falle ei fod yn dawel yma heddiw ond gyda'r gwynt ni'n cael fel arfer yma, mae hi yn sychu'n eithaf cyflym.

Aled Rhys Jones –

Mae'n gallu bod yn lle agored. Mae'r tywydd mor bwysig yn dyw e, nes di sôn yn gynharach am storm Dennis a'r difrod nath 'na. Pan mae'r tywydd yn mynd yn wlyb, oes na 'backup plan' i'w gael? Beth yw'r ymateb?

Bleddyn Davies –

Wel i redeg system fel hyn mae cynllun B, C, D, E ac F gyda fi yn barod os byddai pethau yn mynd trwy'r siop, ond gweithiodd llynedd yn iawn. Daethon nhw mewn bach yn gynharach na'r disgwyl

ond doedd dim byd gallwn ni wedi neud amdano, oedd eisiau cadw'r caeau eraill ar gyfer y defaid a'r ŵyn wrth gwrs ac oedd digon o silwair gyda ni i gael nhw trwy'r gaeaf felly doedd e ddim diwedd y byd. Ond ydy, mae yn bwysig edrych ar ôl y borfa. Efallai ei fod yn sowndo fel nifer o ddefaid ar ardal mor fach, ond maen nhw ond arno am ddau ddiwrnod a hanner, ac mae'r difrod maen nhw'n eu gwneud ddim yn ddifrod parhaol. Wrth redeg y system chi'n cael syniad o ba mor galed yw porfa, mae e'n ddigon *ruthless*, mae e'n dod nôl tro ar ôl tro.

8:12 Aled Rhys Jones –

Mae e'n eithaf '*resilient*' mewn ffordd, mae'n syndod fel mae e'n dod nôl.

Bleddyn Davies –

Mae e yn '*resilient*' iawn. Ni'n digwydd bod yn sefyll ar y '*paddock*' lle oedd y defaid yn ystod storm Dennis llynedd, a gallwch chi fyth dweud wrth edrych arno fe nawr ei fod wedi cael gymaint o ddifrod llynedd. Mae e wedi cael bach o '*special treatment*' mewn ffordd i wneud yn siŵr ei fod yn dod nôl yn iawn, ond yn ystod storom Dennis roedd yn rhaid i ni dynnu'r defaid bant am ddiwrnod neu ddau i wneud yn siŵr bod dim difrod parhaol.

Aled Rhys Jones –

Ond dw i'n siŵr ar y pryd, oedd e siŵr a fod yn deimlad rhyfedd. Mae'r temtasiwn yna i falle droi nhw mas yn gynt, neu eu symud, neu i wneud maint y '*paddocks*' yn fwy achos ddim moen gweld y tir yn cael ei ddifrodi.

Bleddyn Davies –

Roedd y flwyddyn gyntaf ychydig o 'trial and error' mewn ffordd. Rhai caeau nes i symud bach yn gynt falle na ddylwn i fod wedi achos o'n i'n gweld nhw'n newid lliw, ond gyda rhai arall o'n i'n dala mas yn iawn. O nhw wedi troi'n frown ond rhwch chi bythefnos ac o nhw wedi tyfu nôl ac fe oedd na thyfiant newydd, ffres, gwyrdd i gael yno. Gallwch chi fyth wedi dweud bod difrod wedi cael ei wneud.

Aled Rhys Jones –

Ti hefyd mewn man eithaf gweledol mewn ffordd, ti reit yn ymyl y ffordd. Mae'r cymdogion yn gallu gweld beth sy'n mynd ymlaen, odi hwnna'n rhoi mwy o bwysau arnat ti weithiau i wneud yn siŵr dy fod yn gwneud pethau'n iawn?

Bleddyn Davies –

Ydy mae e yn ychwanegu i'r pwysau. Mae'r cylchdro yma reit ar ymyl yr heol fawr, ac fel y dywedon ni mae golygfa neis i'w gael yma. Ond wrth feddwl am hyn, os ydyn ni'n gallu gweld nhw maen nhw'n gallu gweld ni. Felly os eith rhywbeth yn anghywir, bydd pawb yn mynd i'w weld e.

Aled Rhys Jones –

Ond o ran y buddsoddiad i gyflwyno'r system, wrth gwrs mae ffensys parhaol yma, mae ffensys trydan yma hefyd. Faint o gost oedd e i roi'r system i mewn?

Bleddyn Davies –

Wel mae ffensys parhaol o gwmpas y caeau - mae gyda ni pedwar cae yma sy'n ugain erw ac un yn tri deg pum erw. Wedyn o fewn y caeau yna mae '*electric*' ffensys yn rhannu nhw lan ar gyfer y blociau un hectar fi moen ar gyfer y gaeaf. Rhwng y gymysgedd o *electric* ffensys oedd yma ar y fferm yn barod oedd yn cael eu defnyddio a'r '*electric*' ffensys newydd, a'r energiser solar ni'n defnyddio nawr, fe gostiodd tua dwy fil i ni ond ni wedi neud yr arian nôl mewn ffordd yn faint gwnaethon ni arbed yn prynu bwyd i mewn dros y gaeaf llynedd.

Aled Rhys Jones –

Do, fel nes di sôn yn gynharach. Beth yw'r sefyllfa dŵr, oedd digon o ddŵr gyda ti yn y '*paddocks*'?

Bleddyn Davies –

O'r awyr oes. Ond ar gyfer y defaid, dŵr yw'r pen tost ar y funud. Ni'n gorfod cario dŵr i'r defaid, wel dros chwe deg y cant o'r amser i'r bloc yma. Amser hyn o'r flwyddyn dyw e ddim rhy ffôl, dydyn nhw ddim yn yfed gormod felly mae sawl diwrnod yn mynd cyn bod eisiau mwy o ddŵr arnyn nhw. Ond nôl ym mis Mai, roedd mis Mai yn ofnadwy o sych. Oedd hi'n teimlo fel 'never ending job' o gario dŵr i'r defaid. I barhau gyda'r system yma, y cam nesaf yw cael bore hole neu ddau lan yma fel bod y dŵr yn dod yn uniongyrchol yn syth i'r '*paddocks*' a neud e'n gymaint haws eto.

Aled Rhys Jones –

A dyna'r pwynt gyda system fel hyn, ti bob amser yn addasu, ti'n edrych am wahanol bethau i newid ac i wella trwy'r amser. Mae hwnna'n amlwg gyda'r cam nesaf i ti.

Bleddyn Davies –

Unwaith chi'n cymryd y cam cyntaf mewn i rywbeth tebyg, chi'n edrych arno bach fwy manwl, ble mae'r rhannau ohono fe allwch wneud yn fwy effeithiol a le gallwch wella. Dw i'n credu mai'r dŵr byddai'n gwneud pethau lot fwy haws i ni.

Aled Rhys Jones –

Ac mae'n siŵr bod y cwrs Rhagori ar Bori wedi gyrru ti ymlaen hyd yn oed yn fwy ac wedi bod yn allweddol i'r syniad.

Bleddyn Davies –

Yn bendant. Petai ni heb fod ar y cwrs bydden i dal ar y trial and error ac yn treialu tipyn yma ond trwy fod ar y Rhagori ar Bori a chael y wybodaeth wrth Rhys a Dafydd a oedd yn rhedeg e, a hyd yn oed aelodau arall o'r grŵp. O'n ni i gyd wedi bod yn rhannu syniadau, rhannu beth ni'n neud ar y fferm ac wrth drafod, mae rhai o'r grŵp wedi bod yn neud hyn o'r blaen, mae rhai o'r grŵp wedi sydd efallai wedi ei dreial e, a chi'n cael y wybodaeth wedyn o beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, beth i sefyll i ffwrdd wrth a dim hyd yn oed treial, ond hyd yn oed wrth symud ymlaen a'i drafod rhyngom ni, ni'n rhannu gwybodaeth ac mae dealltwriaeth pob un yn o'i system ei hunain a'r system yr ydych chi'n trial gwneud yn gwella.

Aled Rhys Jones –

Ydy, ydy. Wyt ti'n cadw mewn cysylltiad gyda'r grŵp wedyn?

Bleddyn Davies –

Mae digwydd bod grŵp Whatsapp i gael gyda ni. Mae hwnnw yn active iawn ac mae'r 'good and the bad' yn mynd mewn i'r grŵp fel bod pawb yn dysgu. Os fydden i ond yn dangos y pethau da amdano fe [y system pori cylchdro] byddai popeth yn iawn, ond mae 'na bethau sydd wedi mynd yn anghywir, pethau dw i wedi dysgu wrth, felly mae'n bwysig rhannu rheina hefyd gyda phawb.

Aled Rhys Jones –

Ydy, mae'n bwysig i fod yn onest. A byddet ti'n annog unrhyw un arall sy'n gwrando nawr sydd ag hanner diddordeb i ymgeisio am y cwrs i fynd amdani?

Bleddyn Davies –

Unrhyw un sydd â diddordeb am borfa, am bori, â diddordeb mewn gwella eu ddaear a trial arbed costau mewn ffordd. Fe fydden i yn bendant yn dweud wrthyn nhw am gymryd rhan yn y Rhagori ar Bori. Mae e'n grŵp arall o bobl i siarad gyda, pobl arall i rannu syniadau gyda, ac o'r cyfarfodydd mae syniadau arall yn dod. Ac am y diwrnod neu ddau ar ôl cwrdd mae'r syniadau dal yn mynd o amgylch eich pen yn meddwl sut gallwch eu ffitio nhw mewn i'ch system chi.

Aled Rhys Jones –

Ie, a dw i'n siŵr bod lot o syniadau dal yn mynd rownd yn dy ben di am beth i'w wneud yn y dyfodol. A dyna'r cwestiwn dw i moen mynd at nawr wrth i ni gloi'r podlediad. Beth yw'r weledigaeth nawr i ti yma yn Blaenglowon am y pum mlynedd nesaf gwed?

Bleddyn Davies –

Wel mae'r system pori cylchdro yma wedi profi ni faint o borfa ni'n gallu tyfu yma ym Mlaenglowon ac mae'n ardal porfa dim ardal cropiau, felly ni'n gallu tyfu digon o borfa yma, felly fi'n credu am y blynyddoedd nesaf i ddod [byddwn yn] canolbwyntio ar wella systemau a gwella'r borfa, ond hefyd ar yr ochr defaid, trial cynyddu ar y niferoedd. Mae'r ddaear wedi dangos ei fod yn gallu cario'r

defaid yn hawdd. Pe byddwn yn cynyddu faint o ddefaid sydd yma, fyddai ddim yn ormod o gost ychwanegol achos mae'r set up mewn lle yn barod.

Aled Rhys Jones –

Wrth gwrs, felly cynhyrchu mwy ond ar yr un faint o dir a'r fferm bresennol wrth gwrs. Wel dw i'n eithaf hyderus eich bod yn mynd i gyflawni hyn fel teulu, a Bleddyn, diolch unwaith eto am y croeso yma ar Fferm Blaenglowon ar ddiwrnod hyfryd yma yng Ngheredigion, a ga'i ddymuno yn dda i ti a'r teulu i'r dyfodol. Wel diolch hefyd i'n gwrandawyr ac os yw'r podlediad hwn wedi eich ysbrydoli i ymgeisio am y rhaglen Rhagori ar Bori fel oedd Bleddyn yn sôn amdano, peidiwch ag anghofio bod y ffenest ymgeisio nesaf yn rhedeg rhwng y chweched ar hugain o Hydref tan y chweched ar hugain o Dachwedd. I fod yn gymwys i wneud cais mae rhaid bod gan ymgeiswyr gynllun rheoli maetholion ac os oes angen cymorth arnoch chi yna cysylltwch â'ch Swyddog Ddatblygu Cyswllt Ffermio Lleol. Wel dyna ni ar gyfer y bennod hon, byddwn yn ôl ymhen pythefnos gyda llawer mwy i drafod ond tan hynny, ar ran Bleddyn Davies a finnau Aled Jones o Fferm Blaenglowon, diolch am wrando a hwyl am y tro.

Bleddyn Davies –

Hwyl.